

# Banc Cymunedol i Gymru:

Papur trafod ar gyfer

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a  
Thrafnidiaeth

Llywodraeth Cymru

gan yr Athro Colyn Gardner,  
Dirprwy Is-ganghellor a Deon Ysgol Fusnes Prifysgol Sunway  
Prifysgol Sunway  
Malaysia

18 Mehefin 2013

## Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol.....	3-4
2. Cyflwyniad.....	4-5
3. Y Cefndir.....	5-7
4. Y broblem i fusnesau bach a chanolig (BBaChau) yng Nghymru.....	7-10
5. Problemau pellach i BBaChau yn sgil modelau busnes y prif fanciau.....	11-15
6. Ateb a gynigir.....	15-25
7. Sefydlu banc newydd.....	25-27
8. Casgliad.....	28-29
Ynglŷn â'r Awdur.....	30-31

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Nid yw economi Cymru'n economi gadarn. Yn wir, mae'n arbennig o fregus ar hyn o bryd. Ar gyfer sefyllfa fel hon, mae angen sector ariannol cryf i gefnogi twf yr economi a'i chynnal drwy gyfnodau economaidd anodd. Bydd y papur hwn yn dangos nad yw cyflenwad presennol Cymru o wasanaethau bancio'n cyflawni'r naill swyddogaeth na'r llall.

Mae'r sefyllfa hon yn adlewyrchiad rhannol o ddemograffeg neilltuol Cymru, sy'n cynnwys nifer fawr o ficrofusnesau bach iawn a nifer cymharol fach o gorfforaethau mawr, ynghyd â'i gweithwyr sy'n derbyn cyflog is na'r cyfartaledd cenedlaethol a ffocws cryf y wlad ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Bydd y papur yn awgrymu mai ymylol yw diddordeb y banciau mawr a'u pencadlysoedd yn Llundain a Chaeredin yng Nghymru, yn sgil y ffactorau hyn. Mae hyn yn arbennig o wir yn ystod y blynyddoedd diwethaf, pan fu strategaethau'r banciau'n canolbwyntio'n helaeth ar adeiladu gweithrediadau bancio buddsoddi ar draul eu rhwydweithiau bancio adwerthu.

Dadleuir bod system bancio adwerthu y DU, yn enwedig o ran ei gwasanaeth i Gymru, yn gamweithredol, a hynny ers tro, a'i bod yn annhebygol o newid yn fuan iawn. Yn erbyn y cefndir hwn, cynigir y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu banc newydd, Banc Cymunedol Cymru (BCC), gan fabwysiadu model busnes sy'n debyg i'r model sydd gan sawl gwlad lle gwasanaethir BBaChau a chymunedau lleol yn well gyda chredyd a chymorth ariannol. Dangosir enghraifft o sawl gwlad o'r modd y gall banciau ddarparu'r gwasanaethau hyn mewn modd effeithlon.

I gloi, dangosir bod ffactorau sy'n atal creu banciau newydd yn y DU wedi lleihau'n sylweddol ac yn gynyddol wedi i ddigwyddiadau'r blynyddoedd diwethaf ddatgelu gwendidau a methiannau system fancio'r DU. Mae'r hyn a allai ar un adeg fod wedi ymddangos yn annhebygol ac yn obaith ofer bellach yn gwbl bosib, gyda chefnogaeth wleidyddol ac ariannol gref a phenderfynolrwydd i ddarparu banc i'r wlad sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth ariannol yn benodol i BBaChau ac i unigolion Cymru.

## 2. CYFLWYNIAD

Bwriedir i'r papur hwn hysbysu'r Gweinidog am y potensial o greu sefydliad bancio newydd, a chanddo agenda penodol Gymreig, a elwir dros dro yn 'Banc Cymunedol Cymru (BCC)'.

Cenhadaeth y banc newydd hwn o ran ei fusnes craidd fyddai darparu amrywiaeth eang o wasanaethau bancio adwerthu, a fyddai'n canolbwyntio ar gwsmeriaid personol a BBaChau. Yn naturiol, byddai BCC mewn cystadleuaeth amlwg â'r banciau adwerthu presennol ac, mewn rhai meysydd, â chymdeithasau adeiladu, ariandai a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau ariannol i'r sector hwn o economi Cymru. Gan hynny, bydd llawer a chanddynt ddiddordeb personol yn gwrthwynebu creu cystadleuydd newydd, yn enwedig ar adeg lle ceir pwysau parhaus ar berfformiad eu busnes.

Bydd angen cydbwysu gwrthwynebiadau o'r ffynonellau hyn yn erbyn y canfyddiad y bydd y banciau a'r sefydliadau ariannol presennol yn parhau i fethu â darparu'n ddigonol ar gyfer anghenion ariannol y sectorau unigol a BBaChau yng Nghymru.

Ers sawl blwyddyn, cafwyd trafodaeth anffurfiol mewn cylchoedd amrywiol ynghylch creu "Banc Cymreig" gyda'i bencadlys yng Nghaerdydd. Byddai'r banc wedi'i gynllunio i wasanaethu cwsmeriaid y gellid eu disgrifio fel cwsmeriaid sydd wedi'u hallgáu'n ariannol ynghyd â chwsmeriaid bancio adwerthu eraill traddodiadol. Bydd y papur hwn yn ystyried a ddylid rhoi lle amlycach i'r testun ar yr agenda ynghylch datblygiad economaidd Cymru yn y dyfodol. Bydd y dadleuon a gyflwynir yn canolbwyntio ar ymddygiad ac ar ddadansoddiad ansoddol o'r testun. Nid yw hyn yn golygu nad oes digon o ddata ystadegol ac economaidd yn sail i'r dadansoddiad hwnnw. Y gwir yw bod digonedd o ddata ar gael o ffynonellau dirifedi. Mae dehongli'r data hwn yn fwy gwerthfawr na dyblygu'r tablau a'r graffiau hynod niferus y gellir cael gafael arnynt yn rhwydd ar-lein, ac sydd ar gael yn rhwydd gan dîm economeg LIC ei hun. Fodd bynnag, bydd y dadansoddiad yn cyfeirio at y ffynonellau swyddogol pwysicaf ac yn amlygu ystadegau allweddol i gefnogi'r dystiolaeth ar gyfer y casgliadau ynddo. Rhaid cydnabod bod modd defnyddio ystadegau i'r un graddau i lurgunio tystiolaeth sy'n cefnogi gwrthddadleuon, a dyna'r rheswm pam yr ystyrir bod agweddau ansoddol ac ymddygiadol yn fwy perthnasol ar hyn o bryd.

### **3. Y CEFNDIR**

Mae'r gymuned o BBaChau yng Nghymru, yr un peth â rhanbarthau eraill y DU, yn dibynnu'n helaeth ar argaeledd credyd parhaus i ariannu twf ac ehangu. At hynny, o ganlyniad i'r dirwasgiad economaidd sydd bellach wedi para am bum mlynedd a mwy, mae nifer sylweddol o BBaChau yn dibynnu bron yn gyfan gwbl ar gyfleusterau bancio er mwyn sicrhau'r cyfalaf gweithio sydd ei angen i oroesi fel busnesau hyfyw.

O adolygu adroddiad Profit Track 100 y Sunday Times, ar 14<sup>Ebrill</sup> 2013, dim ond dau gwmni preifat wedi'u lleoli yng Nghymru sy'n cyrraedd y rhest - yn yr ail safle, SPTS Technologies, sydd wedi'i leoli yng Nghasnewydd, ac yn safle 37, Dawkins Construction o Abertawe. Mae Profit Track 100 yn gosod cwmnïau preifat Prydain yn eu trefn yn ôl y twf cyflymaf mewn elw. Y ffaith syml yw nad oes traddodiad gwych yng Nghymru o gychwyn ac o dyfu busnesau mawr a llwyddiannus. Mae tabl Stats Cymru ar Strwythur Busnesau yng Nghymru yn ôl eu band maint, yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol o ddsbarthiad busnesau yng Nghymru. Yn 2011, mae'r tabl yn dangos, ymhlith agweddau eraill, fod 94.5 y cant o 204,280 o fentrau yng Nghymru yn cael eu hystyried yn microfusnesau sy'n cyflogi rhwng 0 a 9 o bobl. Yn wir, roedd 74 y cant yn fusnesau un perchennog nad oeddynt yn cyflogi unrhyw un. Nid oedd cyflogwyr "mawr", sy'n cyflogi 250+ o bobl, ond yn cynrychioli 0.8 y cant o'r mentrau.

Rydym yn hen gyfarwydd â'r wybodaeth hon wrth gwrs, a hefyd â'r ffaith bod canran fawr o'r rhai a gyflogir yng Nghymru'n gweithio yn y sector cyhoeddus. Rhwng 1998 a 2007, daeth 55 y cant o'r swyddi newydd a grëwyd yng Nghymru o du'r sector cyhoeddus, a'r hyn a ddisgrifiwyd yn gyflogaeth gan y wladwriaeth. Canlyniad hyn yw bod unigolion a fyddai fel arall yn cychwyn ac yn tyfu busnes yn ei hystyried hi'n fwy diogel a buddiol i weithio yn y sector cyhoeddus. Nid yw'r dirwasgiad economaidd a gafwyd ers 2008 ond wedi atgyfnerthu'r duedd hon.

Sut mae ailadrodd yr holl wybodaeth uchod yn berthnasol wrth ystyried yr angen posibl i greu banc newydd i Gymru? Wrth edrych drwy'r ystadegau hyn a thu hwnt, gellir awgrymu ei bod yn rheoli'r ffordd y mae rheolwyr ar haen uchaf y banciau traddodiadol yn edrych ar Gymru fel marchnad ar gyfer eu gwasanaethau. Mae'n

goleuo eu strategaethau ar gyfer rhwydweithiau, cynnyrch a gwasanaethau canghennau Cymru a llawer o ystyriaethau eraill, gan gynnwys eu hagwedd at gredyd a'u cysylltiad â risg. Un o osodiadau'r adroddiad hwn yw ei bod hi'n amlwg bod agwedd sylfaenol y pencadlysoedd yn Llundain a Chaeredin yn dylanwadu ar y gwasanaethau ariannol sydd ar gael yng Nghymru, ac ar ansawdd y gwasanaethau hynny. Bydd ymddygiad sydd wedi bod yn gyson dros sawl blwyddyn, ond fu ynghudd yn ystod cyfnodau o "gredyd rhwydd", yn amharu'n ddifrifol ar y ffynonellau o gyllid a chyfalaf sydd ar gael i Gymru. Does dim arwydd y bydd y diwylliant ymddygiadol hwn yn newid, hyd yn oed ar ôl i gyfnod gwaethaf y dirwasgiad ddod i ben. Nid awgrymu yr wyf fod Cymru wedi'i dewis yn benodol fel gwlad i'w hesgeuluso, ond cydnabod yn hytrach broses benderfynu resymegol y pencadlysoedd, yn ôl pob golwg.

Er gwaethaf pa mor annerbyniol yw'r safbwynt hwn i'r holl fancwyr adwerthu da a phroffesiynol yng Nghymru, gwneir y penderfyniadau yn rhywle arall, ac yn ddiweddarach dadleuir bod modelau busnes yr holl fanciau adwerthu yng Nghymru hyd yn oed yn milwrio yn erbyn darparu gwasanaethau a chredyd digonol sy'n hanfodol ar gyfer yr economi.

#### **4. Y BROBLEM I FUSNESAU BACH A CHANOLIG YNG NGHYMURU**

Ers hydref 2007, mae'r argyfwng a gafodd ei alw'n "Wasgfa Gredyd", wedi cael effaith ddinistriol ar fancio bydeang, ac roedd banciau DU a'r Unol Daleithiau ymhlith y banciau yr effeithiwyd arnynt fwyaf, i ddechrau o leiaf. Mae canlyniadau'r argyfwng hwn yn bellgyrhaeddol ac yn dangos yn gwbl glir pa mor hanfodol yw rôl y banciau er mwyn sicrhau iechyd yr economi. Does dim llawer o werth mewn adrodd achosion y wasgfa gredyd yn yr adroddiad hwn, er nad gweithred ofer fyddai gwneud ambell sylw am ymddygiad a moeseg uwch reolwyr

ein banciau mwyaf. Wrth ymatal rhag hyn a symud ymlaen, gellir dysgu rhai gwersi pwysig yn sgil digwyddiadau'r pum mlynedd diwethaf, yn enwedig y gwersi hynny sy'n gwneud i ni gwestiynu sut y dylid trefnu a rheoli banciau yn y dyfodol. Fodd bynnag, y brif wers, a gwers arbennig o bwysig yn achos Cymru, fu'r effaith ar yr economi yn sgil diffyg credyd. Tan 2007, roedd y banciau'n awyddus dros ben i fenthg arian er mwyn ehangu eu mantolenni ac i gynhyrchu elw cynyddol, er mwyn bodloni'r galw nad oedd modd ei ddiwallu am daliadau bonws i uwch swyddogion gweithredol a chynnydd cyson mewn gwerth i'r cyfranddalwyr. Roedd y cyfnod hwn yn gyfnod o "arian rhwydd" a ddaeth i ben yn ddirybudd yn hwyr yn 2007. Ers hynny, mae'r banciau wedi bod yn lleihau eu hasedau'n gyson, yn enwedig eu llyfrau benthyca, gan fod angen glanhau benthyciadau drwg a chadw cyfalaf er mwyn cydymffurfio â mesurau rheoli llymach ar gyfalaf a hylifedd. Effaith hyn ar economi'r DU yn gyffredinol, ac ar economi Cymru'n arbennig fu creu'r dirwasgiad dwbl a'r gwendidau sy'n parhau i gyfyngu ar dwf economaidd hyd heddiw.

Mewn adroddiadau difrifol o dystiolaeth anecdotaidd a gasglwyd o gyfres o weithdai rhanbarthol o dan arweiniad Dyfrig John, Liz Davies a Gerald Davies ar gyfer y Gweinidog blaenorol, cafwyd cwynion cyson ynglŷn â'r ffaith nad oedd y banciau adwerthu yng Nghymru'n gallu darparu'r cyfleusterau benthyca yr oedd eu hangen. Yn y gyfres o uwchgynadleddau economaidd a gadeiriwyd yn wreiddiol gan Rhodri Morgan, a Carwyn Jones wedi hynny, y neges gan adrannau amrywiol o economi Cymru, gan y Ffederasiwn Busnesau Bychain, gan yr Undebau Llafur, gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain, gan arweinwyr sectorau penodol fel Adeiladu, Adwerthu a Thechnoleg, oedd bod prinder cyllid gan y banciau'n achosi niwed difrifol i fusnesau Cymru.



Ymateb rhyfeddol o gyson y banciau i hyn oedd mai adlewyrchu'r diffyg galw am fenthyciadau newydd yr oedd y gostyngiad yn yr ystadegau benthycia. Adroddodd y banciau fod oddeutu 85 y cant o bob cais newydd am fenthyciad yn cael ei gymeradwyo. Efallai fod hyn yn wir ar yr wyneb o leiaf, ond roedd yn groes i'r dystiolaeth a gafwyd gan yr holl sectorau a nodir uchod. Eglurhad posibl ar gyfer hyn, ac enghraifft o natur dwyllodrus ystadegau, oedd bod y galw'n isel gan fod cwsmeriaid wedi rhagweld y byddent yn cael eu gwrthod, neu fod eu cais wedi'i wrthod ar lefel cangen.

Yn yr amgylchiadau hyn, ni fyddai cyfradd cymeradwyo 85 y cant o nifer llawer llai o geisiadau am fenthyciadau yn ffordd ystyrion o fesur y benthyciadau sydd ar gael, nac o'r ymrwymiad i fenthycia.

O ystyried y ffynhonnell fwyaf gwerthfawr o wybodaeth am ystadegau benthycia, sef adroddiadau chwarterol Banc Lloegr am gredyd a chyflwr y banciau, ceir darlun cywirach o'r sefyllfa. Mae benthyciadau gan fanciau i'r holl sectorau busnes, yn enwedig busnesau bach a chanolig, wedi gostwng yn sylweddol drwy gydol y dirwasgiad. Mae'r adroddiadau diweddaraf hyd yn oed yn cynnwys y datganiadau canlynol:

Adroddiad Asiant Banc Lloegr, Mai 2013:

“Cafodd llawer o gwmnïau llai heb sicrwydd ariannol addas fod cyfyngu o hyd ar eu mynediad at gyllid, ac adroddwyd mai ychydig o newid fu yn awydd y banciau am risg – roedd hyn weithiau i'w weld yn y prosesau maith a gafwyd wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau am fenthyciadau”

ac,

“Adroddodd BBaChau dwf yn y defnydd o gyllid o'r tu allan i'r banciau, er mai lefelau isel a gafwyd o hyn, gan gynnwys benthycia rhwng cymheiriaid, ariannu torfol, cronfeydd cyfalaf menter a chwmnïau yswiriant a chronfeydd pensiwn”.

Mae prif fanciau'r DU, BARCLAYS, RBS, LLOYDS BANKING GROUP, HSBC, SANTANDER A NATIONWIDE, gyda'i gilydd yn darparu 70 y cant o'r arian a fenthycir i fusnesau. Roedd y twf blynyddol yn y stoc o fenthyciadau i fusnesau'r DU yn negyddol yn adroddiad "Trends in Lending" Banc Lloegr, Ionawr 2013, gyda'r benthyciadau i BBaChau yn gostwng dros y cyfnod hwnnw.

Felly ar wahân i dwyll amlwg y banciau wrth iddynt barhau i honni nad oes llawer o alw am fenthyciadau, canlyniad amlwg hyn yw bod prinder credyd aruthrol ymhlith BBaChau. Gan mai BBaChau yw mwyafrif y busnesau yng Nghymru, gellir dweud yn ddiogel nad yw'r banciau wedi bod yn gweithredu'n effeithiol yn eu rôl glasurol o drawsnewid yr arian sy'n weddill gan adnewyr i fodloni'r galw am fenthyciadau gan fenthycwyr. Yn sicr, mae BBaChau yng Nghymru wedi dioddef yn ofnadwy yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn wir, hyd yn oed pan fu benthyciadau ar gael, cynyddodd cost credyd ar adeg pan oedd cyfraddau sylfaen yn hanesyddol isel.

Dyma ddyfyniad o lyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan ddau academydd o'r Unol Daleithiau, Admati a Hellwig, sef "The Bankers' New Clothes" [cyfieithiad]:

“Pan fydd banciau'n mynd i drafferthion ac na allant barhau i fenthycia, bydd effaith hyn ar fusnesau bychain yn tueddu i fod yn neilltuol o fawr. Bydd gostyngiadau yn yr arian a fenthycir gan fanciau i fusnesau yn chwarae rhan o bwys yn nhrosglwyddiad problemau bancio i weddill yr economi.”

Does dim amheuaeth na dadl mai dyma'r union broblem a achoswyd i economi Cymru yn sgil y banciau diffygiol sydd gennym yn y DU.

## **5. PROBLEMAU PELLACH I FUSNESAU BACH A CHANOLIG YN SGIL MODELAU BUSNES Y PRIF FANCIAU**

Mae amlygu'r anhawster a wynebir gan fusnesau bach a chanolig wrth geisio sicrhau cyllid ar gyfer eu busnesau yn hanfodol wrth ystyried a yw creu banc newydd wedi'i dargedu'n benodol at y sector hwn o'r economi yn ateb priodol. Os yw pob un o'r banciau adwerthu mawr yn gweithredu oddi mewn i'r un cyfyngiadau, fel yr ydym yn tybio, mae'n dilyn nag oes unrhyw frys arnynt i gynnig ffordd o ddod â'r broblem hon i ben. Yn ychwanegol at hyn, os rhagwelir bod cyrff rheoleiddio'n parhau i fynnu bod bancwyr y DU yn cynyddu eu cyfalaf, mae'n annhebygol y bydd eu capasiti presennol i fenthycu i BBaChau yn newid rhyw lawer yn y dyfodol agos.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno ei Gynllun Cyllid ar gyfer Benthycu ac wedi gwella ac ymestyn y cynllun hwnnw'n ddiweddar. Nod y cynllun yw annog benthycwyr i ddarparu mwy o fenthyciadau am bris rhatach i gwmnïau bach a chanolig. Er bod hyn yn ymddangos fel newyddion da ar yr wyneb, rydym yn dal heb weld unrhyw arwydd amlwg o gynnydd sylweddol yn awydd y banciau i ymwneud â BBaChau. Mae dyfyniad diweddar yn y Financial Times (25 Ebrill, 2013) yn dweud y cwbl:

“Mae banciau wedi troi'n llai a llai pwysig” meddai Jeff Barber, partner cyllid corfforaethol yn Begbies Traynor, y cwmni gwasanaethau proffesiynol. "Does dim dewis o fewn y sector bancio gan eu bod i gyd yr un peth. Maen nhw'n ymddwyn fel un haid. Roedd pawb yn gorfenthycu pan oedd yr economi yn ei hanterth, ac erbyn

hyn maent naill ai heb fod yn benthycia o gwbl, neu'n ddewisol iawn wrth wneud hynny." Dengys siart gysylltiedig fod benthyciadau i BBaChau wedi gostwng o oddeutu £130 biliwn yn 2009 i lai na £100 biliwn yng nghanol 2012. Fel y gwyddom o Ystadegau Banc Lloegr, mae benthyciadau i BBaChau wedi gostwng ymhellach ac yn parhau i fod yn gyfyngedig ymhlith yr holl fanciau adwerthu mawr.

Mae mentrau eraill gan lywodraeth y DU i annog cystadleuaeth yn y farchnad drwy gyflwyno banciau newydd, wedi'i gwneud hi rywfaint yn rhwyddach i ffurfio banciau newydd. Mae sawl banc wedi cael ei ffurfio dros y blynyddoedd diwethaf. Rhoddwyd trwydded bancio gwasanaeth llawn i'r Metro Bank PLC yn 2010. Cafodd banc arall, Aldermore, ei lansio yn 2009, gyda chefnogaeth Ancap, buddsoddwr ecwiti preifat mwyaf Ewrop mewn gwasanaethau ariannol. Yn ôl gwefan Aldermore [cyfieithiad]: "Credwn fod defnyddwyr a busnesau bach a chanolig yn haeddu gwell ac rydym yn buddsoddi mwy a mwy er mwyn darparu arbenigedd ariannol y gall cwsmeriaid ymddiried ynddo."

Ar 28 Mai, 2013 ymwelodd Dr. Vince Cable â phencadlys Aldermore yn Reading, a dywedodd:

"Mae angen i'r adferiad gael ei ysgogi gan fusnesau bach a chanolig. Y busnesau bach a chanolig fydd yn gweddnewid pethau. Mae angen i'r banciau eu cefnogi". Yn ôl sylwadau Dr. Cable, mae'n amlwg fod ffynonellau ar lefel uchel o fewn y Llywodraeth yn dal o'r farn nad yw busnesau bach a chanolig yn derbyn yr arian y mae arnynt ei angen i roi sbardun i'r economi. Mae dadl barhaus y banciau nad oes digon o alw am gredyd wedi colli ei hygredd, ac mae dau reswm o leiaf pam nad ydynt yn benthycia.

Y cyntaf yw'r ffaith bod eu cyfalaf yn gyfyngedig, a'u bod yn canolbwyntio ar ailstrwythuro eu busnesau drwy werthu asedau a benthyciadau drwg, ac ar leihau eu llyfrau benthyciadau er mwyn cydymffurfio â gofynion

rheoleiddio llymach. Ond yr ail reswm, a fydd yn siŵr o gael ei wadu unwaith eto, yw bod y banciau'n brin o fenthycwyr hyfforddedig a all ddadansoddi busnesau bychain drwy'r dull traddodiadol, yn sgil y modelau busnes a fabwysiadwyd gan yr holl fanciau yn ystod y blynyddoedd o ffyniant.

Yn niffyg hynny, bydd y dadansoddiad canlynol yn nodi'r gwersi y gall banc newydd, sef Banc Cymunedol Cymru, ei ddysgu yn sgil methiannau'r banciau adwerthu traddodiadol. Fel yr awgrymwyd uchod, un o'r prif resymau pam na all BBaChau gael credyd, yw bod y banciau wedi symud eu rheolwyr banc profiadol o'u canghennau sydd, i bob pwrpas, wedi cael eu troi'n "siopau". Mae'r awdurdod i gymeradwyo credyd wedi cael ei golli yn sgil mabwysiadu ar raddfa fawr adrannau cymeradwyo credyd o bell sy'n dibynnu'n helaeth ar dechnolegau sgorio meintiol ar gyfrifiaduron. Mae'r model hwn wedi amddifadu'r banciau rhag y gallu i asesu pa mor deilwng yw'r cwsmer i dderbyn credyd yn seiliedig ar wybodaeth bersonol amdano. Mae'r model bancio seiliedig ar ganghennau a fabwysiadwyd gan yr holl brif fanciau clirio mewn gwirionedd yn eu gadael yn agored i ddyledion drwg. Cefnwyd i raddau helaeth ar y dull traddodiadol o fancio drwy ganghennau lle'r oedd y rheolwr lleol yn adnabod ei gwsmeriaid yn bersonol, o blaid creu diwylliant wedi'i sbarduno gan werthiant. O'u hanfod, ceir peryglon yn gysylltiedig â cheisiadau am fenthyciadau a ddadansoddir o bell. Yn aml, bydd BBaChau yn dibynnu i'r un graddau ar berchennog-ysgogwr a chymeriad a phersonoliaeth rheolwyr ag ar adolygiad elfennol o agweddau ariannol a sicrwydd cyfochrog gan rywun ym Mumbai neu Ynys Manaw.

Mae llwyddiant Handelsbanken Sweden yn y DU yn tystio i ffordd wahanol o weinyddu busnes bancio.

O'u gwefan [cyfieithiad]:

“Fel cwsmer i Handelsbanken, ni fyddwch ond yn delio â phobl yr ydych yn eu hadnabod yn ôl eu henw, a bydd y trafodaethau ynglŷn â'ch materion bancio yn cael eu cynnal yn eich cangen leol”.

Agorodd Handelsbanken ei gangen gyntaf yn y DU ym 1982, ac mae ganddo bellach 150 o ganghennau drwy'r wlad. Cyfrinach llwyddiant y cwmni yw ei fod yn gweithredu model bancio cangen traddodiadol, sef dull gweithredu holl fanciau clirio'r DU tan y 1980au a'r 1990au pan symudodd pob un ohonynt yn gynyddol at y model siop adwerthu presennol.

Yn wahanol i fanciau'r DU, gall rheolwyr Handelsbanken wneud penderfyniadau lleol ynghylch credyd yn seiliedig ar eu gwybodaeth am y gymuned leol a'i phersonoliaethau. Nid oes unrhyw fwriad yma i feirniadu cyflogeion y banciau adwerthu yng Nghymru. Mae eu modelau busnes a'u gwaith hwy'n deillio o benderfyniadau uwch weithredwyr. Mae'r gallu i roi neu wrthod benthyciadau i BBaChau yng Nghymru i raddau helaeth y tu hwnt i'w rheolaeth, gyda pholisi'r Brif Swyddfa'n pennu uchafsymiau a sectorau busnes. Yng nghyd-destun polisi benthycia'r DU gyfan, mae'n debyg y bydd Cymru dan anfantais oherwydd y ddemograffeg a drafodwyd yn flaenorol - gormod o fusnesau bach iawn a dim digon o fusnesau mawr. Nid yw poblogaeth fechan sy'n cynnwys cyfran uchel o bobl sy'n ennill cyflog isel neu bobl wedi ymddeol yn achosi llawer o gynnwrf ymhlith strategyddion adwerthu'r banciau ychwaith. Yn y cyd-destun hwn, nid yw Cymru'n ymddangos fel marchnad sy'n hynod ddeniadol i fanciau traddodiadol, yn enwedig y rhai hynny y cyfyngir arnynt gan ddogni credyd, a chanddynt strwythurau costus, ac sydd dan bwysau i gynyddu eu cyfraddau cyfalaf. Mewn rhai ffyrdd, gallai ymddangos fod effaith y gorffennol yn parhau i gyfyngu ar ddarpariaeth gwasanaethau bancio i economi Cymru. Yn ddiweddar, mae ffocws rheolwyr haen uchaf banciau'r DU ar elw a

bonwsau wedi gwthio gwasanaethau bancio traddodiadol o'r neilltu. Yn ogystal â'r ffocws cwbl anghymesur ar fancio buddsoddi a gweithgarwch masnachu (bancio casino) ar draul bancio adwerthu, tybiwyd hefyd y byddai swyddfeydd bychain yn ymdrin â pherthnasoedd corfforaethol yn creu mwy o elw na gwasanaethu'r gymuned drwy rwydwaith o ganghennau. Dyna egluro pam bod cynifer o ganghennau wedi cau ledled y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gyda'r strategaeth hon yn y cefndir, mae'n hawdd gweld pam na fyddai Cymru wedi ymddangos yn uchel ar yr agenda o ran buddsoddi mewn gwasanaeth bancio adwerthu. Yn amlwg, ni fyddai yr un banc yn cyfaddef hyn, nac yn derbyn hyn fel strategaeth esgeuluso benodol. Ni waeth am hynny- mae'r canlyniadau i'r boblogaeth ac i BBaChau Cymru yr un peth. Nid yw cymuned fusnes Cymru na chwsmeriaid unigol wedi derbyn y gwasanaeth y byddent wedi'i ddisgwyl gan y banciau ar ôl y berthynas agos fu rhyngddynt drwy gydol y blynyddoedd o ffyniant. Mae hyn yn galed ar gyflogeion cywir a chymwys banciau adwerthu Cymru, ond yn anffodus nid ydynt wedi gallu dylanwadu rhyw lawer ar bethau.

Mae'n rhaid cydnabod, serch hynny, nid yn unig methiant y modelau busnes a fabwysiadwyd gan y banciau adwerthu, ond y dirywiad dychrynlyd o gyflym a gafwyd yn safonau gwasanaeth traddodiadol y diwydiant. Mae'n debyg bod cwsmeriaid bellach yn fwy anfodlon â'r banciau nag erioed o'r blaen. Cyrhaeddwyd 2.5 miliwn o achosion yn Ystadegau Cwynion Banciau'r DU ar gyfer 2011. O ystyried sgandalau fel Libor, gwyngalchu arian ar gyfer barwniaid cyffuriau ym Mecsico, gwyngalchu arian ar gyfer llywodraeth Iran er gwaethaf sancsiynau'r Cenhedloedd Unedig, a lluo o achosion eraill o gamymddwyn, does dim amheuaeth y ceir cynnydd eto i'r cwynion yn 2012, yn yr un modd â'r chwe blynedd olynol ddiwethaf. Mae hyn yn creu cyfle i newydd-ddyfodiaid gael mynediad i sin fancio'r DU, nad yw eu henw da wedi'i lygru gan flynyddoedd o safonau gwasanaeth cwsmeriaid echrydus, fel sy'n wir yn achos banciau adwerthu traddodiadol y DU.

## 6. ATEB A GYNIGIR

Mae'n rhaid bod ffordd well o wneud pethau.

Tra bo'r prif fanciau'n parhau â'u strategaeth bresennol o ddogni credyd i'r rhai a ystyrir ganddynt yn "deilwng" o'r credyd hwnnw (cysyniad niwlog y gellid ei herio), ac yn parhau â'r mantra ynghylch diffyg galw, bydd BBaChau a defnyddwyr yng Nghymru'n derbyn gwasanaeth sâl. Ceir tystiolaeth eisoes fod BBaChau yn troi at ffynonellau cyllid eraill, gan gyfeillion a pherthnasau, grwpiau benthyca rhwng cymheiriaid, a darparwyr "benthyciadau diwrnod cyflog" eraill llai egwyddorol. Dyma sefyllfa sy'n amhriodol ac yn annerbyniol i Gymru a'i phobl.

Yn rhannau eraill o'r byd, ceir banciau a sefydliadau oddi mewn i systemau ariannol sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyflawni swyddogaeth datblygu economaidd mwy cyfrifol, ac ar gyflawni'r cyfrifoldebau clasurol sydd gan fanciau tuag at eu cwsmeriaid a'u cymunedau. Mae'r sefydliadau hyn yn ffynnu ac wedi parhau i wneud hynny drwy gydol y wasgfa gredyd drwy gadw ymddiriedaeth a theyrngarwch eu cwsmeriaid - rhywbeth y mae banciau'r DU bellach wedi'i golli i raddau helaeth. Mae'r pwynt olaf hwn yn bwysig, gan fod yr amharodrwydd a gafwyd yn y gorffennol ymhlith cwsmeriaid banciau'r DU i symud i fanc arall wedi newid yn sgil ymddygiad y banciau - ymddygiad sydd nid yn unig yn cynnwys y sgandalau ynghylch taliadau bonws a thrachwant yr uwch swyddogion gweithredol, ond hefyd y digwyddiadau a arweiniodd at ddirwyon mawr o amryw o filiynau o bunnoedd gan y cyrff rheoleiddio am wahanol drafodion nad oeddent yn gyfreithlon. Ni ddylid tybio ychwaith y bydd banciau newydd neu lai, neu fanciau sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned, yn amhroffidiol.



Mae ymchwil ddiweddar gan y Global Alliance for Banking on Values, mudiad aelodaeth wedi'i leoli yn yr Iseldiroedd ar gyfer microfanciau, undebau credyd a banciau cymunedol, wedi dangos bod modd i fanciau "cynaliadwy" berfformio'n well na'r banciau mawr o fesur enillion ar asedau. Mae'r Gynghrair yn canolbwyntio'n benodol ar Fanciau Cymunedol yr Unol Daleithiau a chanddynt rhwng \$100 miliwn a \$10 biliwn o asedau, ac yn ystyried bod eu llwyddiant yn deillio o'r cysylltiadau agos â'r economi wirioneddol a'u cymunedau lleol. Ariennir Banciau Cymunedol fel arfer drwy adneuon cwsmeriaid a bondiau trefol sy'n ffynhonnell fwy sefydlog o gyllid na'r marchnadoedd arian cyfnewidiol sy'n cyllido'r banciau mawr byd-eang. Ceir enghraifft dda o Fancio Cymunedol yn yr Unol Daleithiau yn [www.gabv.org/ourbanks/sunrise-community-banks](http://www.gabv.org/ourbanks/sunrise-community-banks)

Byddwn yn dychwelyd i ymdrin yn fwy penodol â bancio cymunedol yr Unol Daleithiau yn ddiweddarach yn y dadansoddiad, gan fod esiamplau eraill diddorol o fodolau bancio sy'n wahanol i sector bancio adwerthu'r DU ac sy'n cynnig datrysiad gwell i fodloni anghenion cyllid BBaChau.

Mae gan yr Almaen a'r Swistir, dau o economïau mwyaf llwyddiannus Ewrop, fanciau a chanddynt fodolau busnes penodol sy'n wahanol i fanciau adwerthu mwyaf y DU. Yn yr Almaen, cedwir oddeutu draean o asedau banc y wlad yn y banciau cynilo (Sparkasse). Yn y Swistir, mae'r Banciau Cantonaidd hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran ariannu busnesau ac unigolion. Ceir cyfyngiadau cyfreithiol ar Fanciau Cynilo yr Almaen a hefyd ar Fanciau Cantonaidd y Swistir sy'n golygu bod yn rhaid iddynt weithredu o fewn ardal ddaearyddol benodedig. Rhaid iddynt hefyd weithredu fel busnesau masnachol gadarn, gan wasanaethu buddiannau eu cymunedau lleol. Mae'n ofynnol iddynt yn ôl y gyfraith ddarparu cyfrifon banc i bawb ac i ddarparu benthyciadau a

gwasanaethau ariannol i fusnesau lleol. Ni ddisgwylir iddynt sicrhau cymaint o elw ag sy'n bosibl, ond disgwylir iddynt fod yn fasnachol hyfyw gan gyflawni amcanion cymdeithasol ar yr un pryd. Gelwir y model hwn yn "llinell waelod ddwbl".

Sefydliadau'r sector cyhoeddus yw Sparkasse yr Almaen. Adneuon gan gwsmeriaid yw'r rhan fwyaf o'r cyllid sydd ganddynt ar gael i'w fenthycu, a rhaid diogelu'r cyllid hwnnw. Mae gan yr Almaen hefyd fanciau gwarantu credyd, sef cymdeithasau dielw o fenthycwyr o ym mhob rhanbarth ffederal. Yn y gorffennol, byddai'r banciau gwarantu hyn yn darparu sicrwydd o 80% o werth y benthyciad gyda'r risg i'r benthyciwr yn 20%. O ganlyniad i'r argyfwng ariannol diweddar, mae Llywodraeth yr Almaen wedi annog banciau gwarantu i ysgwyddo 90% o risg y benthyciad.

Yn wahanol i sefyllfa'r DU, dangosai adroddiad gan Fanc Canolog yr Almaen, Deutsche Bundesbank, ym mis Awst 2010, gynnydd cyffredinol yn swm y benthyciadau gan Fanciau Cynilo yr Almaen, er bod amodau credyd yn y DU wedi troi'n fwy cyfyngedig. Fodd bynnag, yn ystod yr un cyfnod, 2009/10, yn debyg i'r DU, dioddefodd cwmnïau mwy a fenthyciai gan fanciau mawr yr Almaen ostyngiad ym menthyciadau'r banciau hynny. Felly ni wnaeth y 75% o fusnesau bach a chanolig yn yr Almaen sy'n gleientiaid i'r banciau cynilo brofi gwasgfa gredyd. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â phrofiad busnesau bach a chanolig yng Nghymru, ac yn sicrhau dyma pam y parhaodd economi'r Almaen yn gymharol gryf yn ystod cyfnod cynnar y dirwasgiad.

Yn ystadegol, yn ôl y dystiolaeth gan Ganolfan BBaChau Ysgol Fusnes Warwick, yn 2009 sicrhodd busnesau newydd yn yr Almaen 27% o'u cyllid gan fanciau, o gymharu â 12% yn y DU. Mae hyn yn golygu bod

yn rhaid i entrepreneuriaid y DU ddefnyddio llawer mwy o'u cynilion neu ffynonellau eraill o gyllid na'u cymheiriaid yn yr Almaen.

Fel cyrff cyhoeddus, rheolir banciau cynilo yr Almaen gan gyfreithiau rhanbarthol sy'n nodi bod yn rhaid iddynt annog rheolaeth ariannol ddarbodus a llwyddiannus ymhlith eu cwsmeriaid, a bodloni gofynion credyd busnesau lleol. Yn gysylltiedig â'r cyfreithiau hyn, nodir ymhellach fod yn rhaid defnyddio unrhyw arian masnachu sydd dros ben er mwyn canlyn amcanion cymdeithasol ehangach. Mae banciau cynilo yr Almaen hefyd yn canolbwyntio ar fancio perthynas, sy'n seiliedig ar asesiad risg ansoddol yn lle benthycu trafodaethol y DU sy'n seiliedig ar dechnegau meintiol a sgorau credyd. Felly unwaith eto, mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r ffordd y mae'r banciau adwerthu'r DU wedi datblygu eu polisiau benthycu dros y degawdau diwethaf.

Mae Swistir hithau hefyd yn cynnig darlun i BBaCh sy'n wahanol iawn i'r hyn a geir yn y DU. Yn debyg i fanciau mawr yr Almaen a'r DU, dioddefodd banciau mawr y Swistir, fel UBS a Credit Suisse, yn fawr yn sgil y wasgfa gredyd. Fodd bynnag, yn wahanol i'r DU, mae gan y Swistir fanciau adwerthu eraill, Banciau Cantonaidd, sydd wedi cynnal eu lefelau benthycu. Mae Banciau Cantonaidd yn perthyn i'r 26 o wladwriaethau ffederal, neu Gantonau, a chanddynt eu deddfwriaeth, eu cyfansoddiadau eu llysoedd a'u llywodraethau eu hunain. Mae gan bob Canton ei Fanc Cantonaidd ei hun, y mae'r Canton naill ai'n berchen arno'n llwyr neu'n berchen ar draean ohono. Yn ddiddorol, wrth ystyried diddordeb posibl Llywodraeth Cymru mewn creu Banc Cymunedol i Gymru, mae rhai o'r banciau Cantonaidd yn eiddo ar y cyd i gyfranddalwyr y sector preifat a Llywodraeth y Canton. Yn debyg i Fanciau Cynilo yr Almaen, mae gan Fanciau Cantonaidd bwrpas "llinell

waelod ddwbl", ac mae'r mwyafrif ohonynt hefyd wedi cadw at y swyddogaeth o gefnogi busnesau lleol heb ymwneud â gweithgarwch bancio buddsoddi.

Yr hyn sy'n amlwg o'r uchod yw bod systemau ariannol a sefydliadau bancio eraill i'w cael a all, o bosib, gynnig gwasanaeth gwell i'r Gymuned o BBaChau, ac i'r economi ehangach yn sgil hynny.

Mewn sawl ffordd mae cyfraniad y gwasanaethau ariannol i economi'r DU, sydd i raddau helaeth yn seiliedig ar Ddinas Llundain, wedi cuddio'r ffaith na fu gwasanaeth y banciau adwerthu i'r sector BBaChau nac i'r sector defnyddwyr mor effeithlon ag y tybiwyd.

Gellid dadlau mai Dinas Llundain yw canolfan ariannol fwyaf y byd, ynghyd ag Efrog Newydd. Bu ei chyfraniad i'r Trysorlys mor fawr fel na chafodd rhai o'r gwendidau mwyaf peryglus eu datgelu tan yr argyfyngau a gafwyd yn ddiweddar. Mae'r sefyllfa hon bellach wedi newid, ac yn fwy nag erioed, mae'n hanfodol ystyried ffyrdd newydd o wasanaethu'r sector busnesau BBaChau sy'n gwneud cyfraniad mor bwysig i'r economi.

Mae UDA, lle mae Bancio Cymunedol wedi hen ennill ei blwy ac yn rhan gynhenid o'r system ariannol, yn wlad arall lle'r ymddengys fod strwythur sefydliadol gwahanol y darparu gwasanaeth gwell i fentrau bychain lleol ac unigolion ar incwm isel Mae darn pwysig o ddeddfwriaeth UDA hefyd wedi ysgogi cefnogaeth ar gyfer benthycwyr lleol y canfyddir bod ganddynt anghenion arbennig. Ym 1977, pasiodd Cyngres yr Unol Daleithiau'r Ddeddf Ailfuddsoddi mewn Cymunedau (CRA), gyda'r nod o leihau arferion credyd sy'n gwahaniaethu yn erbyn cymdogaethau isel eu hincwm. Dyluniwyd y gyfraith hon i annog banciau masnachol a chwmnïau cynilo a benthycwyr cysylltiedig (tebyg i gymdeithasau adeiladu'r DU) i helpu i fodloni anghenion benthycwyr ym mhob rhan o'u cymunedau. I orfodi'r gyfraith, bydd asiantaethau rheoleiddio ffederal yn archwilio sefydliadau bancio

i weld a ydynt yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Ym mis Rhagfyr 2010, diwygiwyd y Ddeddf i annog sefydliadau ariannol i gymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn anelu i adfywio cymdogaethau yr oedd yr argyfwng credyd wedi achosi niwed neilltuol iddynt. Yn ogystal â hyn, yn sgil Deddf Swyddi Busnesau Bach 2010, galluogwyd asiantaethau bancio ffederal, y Gronfa Ffederal a Thrysorlys yr Unol Daleithiau i weithredu Rhaglen y Gronfa Benthycia i Fusnesau Bach (SBLF). Bwriedir i'r SBLF hwyluso benthyciadau newydd i fusnesau bach a chanolig sydd yn teilyngu credyd, drwy ddarparu cyfalaf fforddiadwy i gefnogi Banciau Cymunedol.

Mae Bancio Cymunedol yn yr Unol Daleithiau ar hyn o bryd yn profi twf cyflym yn sgil nifer o ffactorau sy'n berthnasol i'r profiad yng Nghymru. Mae holl fanciau'r Unol Daleithiau a chanddynt enwau mawr, fel Citibank, Bank of America, Wells Fargo, JPMorgan Chase, ynghyd â'r banciau mawr rhanbarthol, oll wedi bod yn cyflwyno toriadau i'w llyfrau benthycia, sef yr hyn a elwir yn "ddad-drosoli". Yn erbyn y cefndir hwn, mae Banciau Cymunedol wedi gweld eu cynnyrch mwy ceidwadol a syml, a'u harddull fancio sy'n seiliedig ar reoli perthynas, yn troi'n fwyfwy deniadol. Yn ôl un o'r prif arbenigwyr ar Fancio Cymunedol, Vincent Boberski, yn ei lyfr "Community Banking Strategies" yn 2010, wrth edrych ar y gystadleuaeth â banciau mwy yr Unol Daleithiau: "Mae digonedd o berthnasoedd ar gael â chleientiaid brwd." Yn sicr, byddai hyn hefyd yn wir yn y DU.

Wrth edrych ar wefan un banc cymunedol nodweddiadol, gwelir yn amlwg y gwahaniaeth rhwng y profiad a gaiff busnesau bach a chanolig a chwsmeriaid unigol yn yr Unol Daleithiau ac yng Nghymru. Ar wefan Banciau Cymunedol Colorado, arddangosir ystod lawn o gynnyrch a gwasanaethau bancio traddodiadol yn glir, gan gynnwys costau. Wrth archwilio'r adran ar fenthyciadau masnachol ar gyfer BBaChau, y frawddeg gyntaf yw:

“Wedi blino disgwyl i bwyllgorau benthycia fodloni eich anghenion ariannol? Does gan Fanciau Cymunedol Colorado ddim pwyllgorau benthycia, dim ond bancwyr hynod gymwys a pharod a chanddynt y gallu i fodloni anghenion ariannol eich busnes”. [cyfieithiad]

O dan "Small Business Solutions", arddangosir y benthyciadau'n glir ar ffurf matrices sy'n dangos swm y benthyciad, y defnydd ohono, y telerau ar gyfer tâl isafswm, hyd y benthyciad a'r gyfradd llog. I gyd-fynd â hyn ceir addewid am benderfyniad o fewn cyn lleied â diwrnod, ac i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud yn lleol.

Mae'r ymagwedd hon, sy'n nodweddu model busnes Bancio Cymunedol yr Unol Daleithiau, yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r math o brofiad y byddai BBaCh yng Nghymru yn ei gael mewn banc. Yn y DU, ni chaiff y penderfyniad ynglŷn â'r benthyciad ei wneud yn lleol (os nad yw'r penderfyniad hwnnw'n golygu dweud "na" yn syth), a bydd yr amser rhwng gwneud cais am y benthyciad a'i gymeradwyo/wrthod yn siŵr o fod yn hwy nag 1 diwrnod; a bydd pris y benthyciad yn ddrud ac yn aneglur.

Ceir yr un diffyg ym manciau mawr yr Unol Daleithiau ag a geir ym manciau'r DU o ran ymddiriedaeth a hyder cwsmeriaid, ond ceir arwyddion bod rhai mathau o bartneriaeth yn ffurfio rhwng y banciau masnachol mawr a'r sector cyllid Cymunedol. Yn ôl ymchwil gan Mr. Tony Greenham, Pennaeth Cyllid a Busnes ym melin drafod y Sefydliad Economeg Newydd:

"Mae sefydliadau cyllid datblygu cymunedol yr Unol Daleithiau yn arbennig o dda am fenthycia i grwpiau ar incwm isel. Mae'r banciau mawr yn eu cefnogi gyda chyfalaf, cefnogaeth systemau a hyfforddiant, gan fod y system reoleiddio wedi'u gorfodi i wneud hynny o dan y Ddeddf Ailfuddsoddi mewn Cymunedau."

Mae gan system fancio'r Unol Daleithiau hefyd Undebau Credyd datblygedig iawn, sy'n darparu gwasanaethau bancio i deuluoedd ar incwm isel ac i fusnesau bach. Nid yw Undebau Credyd yr Unol Daleithiau'n gweithredu ar raddfa fach ychwaith. Mae'r wybodaeth yn adroddiad blynyddol 2012 ar gyfer un Undeb Credyd o Golorado, sef Bellco, yn ddiddorol:

"Cafwyd cynnydd o \$175miliwn i'n hasedau yn 2012, gan greu cyfanswm o \$2.2biliwn o asedau. Cafwyd cynnydd hefyd mewn aelodaeth nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen o 20,530 o aelodau newydd. Crëwyd dros \$1.1 biliwn mewn benthyciadau i helpu aelodau i gyflawni nodau ariannol. Yn 2012, cynyddodd ein hymrwymiad hefyd i fenthyciadau busnes, gyda chynnydd o 100% yn y maes hwn, gan ddyblu ein portffolio. Cynyddodd bodlonrwydd ein haelodau i 94%.

Mae gan Bellco, yr undeb credyd, 214,000 o aelodau. Gwasanaeth bancio dielw yw Bellco, lle caiff unrhyw elw ei ddychwelyd i'r aelodau ar ffurf cyfraddau llog is. Mae gan Bellco 19 o leoliadau yn Colorado, un o daleithiau America a chanddi boblogaeth sydd heb fod yn llawer mwy na phoblogaeth Cymru. Yn rhan o'i fandad cyfrifoldeb cymdeithasol, mae Bellco hefyd yn cefnogi meysydd y celfyddydau ac adloniant, gan noddi cyngherddau a darlithoedd yn Theatr Bellco.

Cysyniad cymdeithasol yw allgau ariannol, ac mae'n sicr yn bresennol yng Nghymru. Mae allgau ariannol yn cyfeirio at unigolion a microfusnesau y mae'r banciau masnachol mawr yn tybio eu bod yn rhy dlawd a heb fod yn ddigon deniadol i ddarparu gwasanaethau bancio iddynt. I'r bobl hyn, ceir undebau credyd o bob math a maint ledled y DU. Gwirfoddolwyr yw'r staff yn llawer o'r undebau. Yn ôl Cymdeithas Genedlaethol yr Undebau Credyd, UKCU, mae nifer yr aelodau'n cynyddu wrth i bobl geisio canfod opsiwn arall

yn lle'r banciau mawr. Mae'n ddigon posib y bydd Undebau Credyd yn parhau i dyfu, ond mae problem benodol yn hofran dros ein pen yn gysylltiedig ag allgau ariannol, gan fod budd-dal lles cyffredinol newydd Llywodraeth y DU ar fin cael ei gyflwyno, a fydd yn ei gwneud hi'n orfodol i dderbynwyr gael cyfrif banc. Ar ben hyn, byddant yn derbyn eu taliadau'n fisol ac ar ddiwedd pob mis.

Gallai hyn gynnig cyfle diddorol am fanc newydd, os edrychwn ar esiampl y National Australia Bank (NAB). Ers 2011, mae'r NAB wedi lansio cyfres o gynhyrchion a gwasanaethau, gan gynnwys Rhaglen Benthyciadau Microfentrau'r NAB, a'i raglen Mentoriaid Arian i Gymunedau Brodorol. Yn y ddwy flynedd ers lansio'r fenter hon, mae'r NAB wedi ennill dros filiwn o gwsmeriaid newydd.

Yr hyn a ddangosir yn rhan helaeth o'r adroddiad hwn yw bod digonedd o dystiolaeth ar gael o bob rhan o'r byd sy'n dangos ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith cwsmeriaid o'r ffaith y dylai banciau weithio'n galetach er budd eu cymunedau er mwyn adennill y parch a'r ymddiriedaeth sydd yn aml iawn wedi'u niweidio'n ddifrifol. Mae dull mwy moesegol o fancio yn rhywbeth sy'n ymddangos fel pe bai'n gweithio'n well yn fyd-eang. Yn y DU, ac mewn ardaloedd eraill, mae cwsmeriaid bellach yn fwy tebygol o gefnu ar y banciau trachwantus a gwael eu hymddygiad a throi at sefydliadau a chanddynt safonau proffesiynol uwch. Yn ôl yr ymgyrch "Move Your Money", amcangyfrifir bod 500,000 o bobl wedi trosglwyddo eu cyfrifon cyfredol o'r banciau adwerthu mawr yn y DU i opsiynau moesegol rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2012. Mae'r opsiynau eraill hyn yn cynnwys Cymdeithasau Adeiladu, Undebau Credyd a chwmnïau cydweithredol. Honnodd y Co-operative Bank iddo dderbyn 100,000 o gwsmeriaid newydd mewn dau fis yn ystod haf 2012. Ffurfiwyd banc moesegol yn yr Iseldiroedd, Triodos Bank, ym 1980 gyda chyfalaf cychwynnol o 540,000 ewro.



Ers dechrau'r argyfwng bancio yn 2007/08, mae Triodos wedi mwy na dyblu o ran maint. Yn 2012, ychwanegodd Triodos Bank 23% at ei fantolen gan greu cyfanswm o 5.3 biliwn ewro, cyflwynodd gynnydd o 16% i'w lyfr benthyciadau, ac fe gynyddodd nifer ei aelod-gwsmeriaid i 437,000 gydag elw net o 22.6 miliwn ewro. Mae'n amlwg bod bancio moesegol yn rhywbeth y ceir galw amdano. Mae prosiectau a ariannwyd yn ddiweddar gan Triodos yn cynnwys cyflwyno bond ar gyfer Golden Lane Housing, un o is-gwmnïau MENCAP, ac ariannu Jamie's Farm, prosiect teuluol sy'n cefnogi datblygiad pobl ifanc sy'n agored i niwed.

O edrych ar beth o'r dystiolaeth hon, mae'n anodd peidio casglu bod system fancio adwerthu'r DU yn gamweithredol o ran darparu gwasanaethau credyd i adrannau sylweddol o'r economi, sef BBaChau, unigolion ar gyflogau is a'r rhai nad oes ganddynt gyfrif banc. Mae'n anodd honni bod cwmnïau mwy a chwsmeriaid sydd ar incwm canolig i uchel yn gwneud yn llawer gwell.

Yn ystod yr argyfwng bancio gwaethaf o fewn cof, yr hyn y gallwn ei weld wrth edrych ar sawl gwlad wahanol yw bod banciau a chanddynt gysylltiadau agos â'u cymunedau; modelau busnes syml a cheidwadol; ffocws cryf ar gwsmeriaid; cyfrifoldebau cymdeithasol a chymunedol; bancwyr wedi'u hyfforddi'n dda sy'n gallu gwneud penderfyniadau ynghylch credyd yn gyflym ac yn lleol; banciau nad ydynt yn dibynnu ar brosesau sgorio credyd meintiol o bell er mwyn rheoli risg; a banciau sy'n osgoi bancio casino a chynnyrch ariannol astrus a gorgymhleth wedi parhau i ffynnu o amgylch y byd i raddau helaeth.

Cyfeiriwyd at fanciau mawr y DU fel banciau sy'n "rhy fawr i fetu"; efallai eu bod hefyd yn "rhy fawr i newid", felly dyma gyfle i sefydlu banc ar fodel newydd, sef Banc Masnachol Cymru.

## 7. SEFYDLU BANC NEWYDD

Cafwyd cryn dipyn o ddiddordeb mewn sefydlu sefydliadau bancio newydd yn y DU dros y blynyddoedd diwethaf, ac efallai fod hynny'n syndod yng nghyd-destun yr argyfwng bancio byd-eang. Daw peth o'r diddordeb hwn yn sgil cyhoeddi Adroddiad Vickers yn 2011, a elwir yn swyddogol yn Gomisiwn Bancio Annibynnol (ICB). Ymhlith agweddau eraill, argymhellodd Vickers y dylid cyfeirio'r banciau i dderbyn ymchwiliad cystadleuaeth. Canolbwyntiai rhan helaeth o'r adroddiad ar y canlyniadau niweidiol i'r economi yn sgil diffyg cystadleuaeth difrifol rhwng y banciau. Argymhellai'r adroddiad system i'w gwneud hi'n haws i gwsmeriaid symud eu cyfrif o'r naill fanc i'r llall. Un o brif argymhellion yr ICB yw cadw bancio adwerthu ar wahân i weithgarwch bancio buddsoddi, am gyfnod hyd at 2019.

Fodd bynnag, yr hyn a oedd yn fwy uniongyrchol berthnasol oedd y canfyddiad bod y strwythurau codi tâl ar gyfer llawer o gyfrifon cwsmeriaid yn niwlog, yn enwedig mewn perthynas â ffioedd gorddrafft. Mae hyn yn cymharu'n wael â'r hyn yr ydym wedi'i weld eisoes yn natur ddidwyll y prisiau cynnyrch ym manciau cymunedol yr Unol Daleithiau. Argymhellodd yr ICB y dylid cael heriwr newydd cryf o fewn y farchnad er mwyn cynnig opsiwn cystadleuol yn lle'r banciau presennol. Yn bennaf, y dylai'r Corff Rheoleiddio Ariannol newydd, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) "hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol" fel "prif ddyletswydd".

Ers cyhoeddi'r Adroddiad, mae Llywodraeth y DU, yn enwedig y Canghellor George Osborne a'r Gweinidog Busnes Vince Cable wedi cyfleu droeon yr agwedd ffafriol hon at sefydliadau bancio newydd yn y DU. Wrth adael ei swydd yn ddiweddar, dywedodd Cadeirydd yr FSA y gallai banciau newydd fod angen cyn

lleied â 5 miliwn ewro (£4.25m) o gyfalaf er mwyn dechrau gweithredu. Mae'r FSA wedi cyhoeddi cynlluniau i'w gwneud hi'n haws i sefydlu banc newydd, gan gynnwys lleihau'r amser sydd ei angen i gael cymeradwyaeth i 6 mis yn lle'r 2 flynedd flaenorol. Bellach, disgwylir i ymgeiswyr soffistigedig sydd wedi dod â chyfalaf, TG ac uwch reolwyr profiadol ynghyd gael penderfyniad ynghylch awdurdodi cyn pen 6 mis, ac ni fydd ond angen 4.5% o gyfalaf craidd haen un ar fanciau newydd o gymharu â hyd at 9.5% ar gyfer y banciau mwy.

Bydd y gyfundrefn newydd hon yn cael ei phlisma gan ddau gorff rheoleiddio newydd, yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Bydd yr awdurdodau hyn yn goruchwyllo'r orfodaeth i'r Lloyds Banking Group ac RBS waredu canghennau. Mae angen i'r naill ryddhau 600+ a'r llall ryddhau 300+ o ganghennau, ar ôl i drethdalwyr eu hachub rhag methdaliad anochel yn ystod yr argyfwng ariannol. Yn sgil ei fethiant diweddar i gwblhau gwerthiant i'r Co-operative Bank, mae Lloyds wedi cyhoeddi y bydd yn ystyried cyhoeddi cyfrannau'r canghennau ar y farchnad stoc o dan enw brand y TSB. Yn y cyfamser, mae'r RBS wedi cyfeirio at fodel ymadael tebyg, gyda'r canghennau'n ffurfio William & Glyn's Bank newydd, gan ddychwelyd enw brand traddodiadol o'r byd bancio i'r Stryd Fawr. P'un a fydd y cynlluniau hyn yn mynd rhagddynt ai peidio, mae cefnogaeth Llywodraeth y DU ar gyfer banciau newydd yn parhau i fod yn gryf. Mae dyfyniad a adroddwyd yn ddiweddar gan Mr Osborne yn arwydd o'r agwedd newydd tuag at gystadleuaeth ym maes bancio adwerthu:

"Mae ein system fancio wedi'i chrynhai'n ormodol. Rydym am gael banciau newydd ar ein stryd fawr sy'n cynnig gwir gystadleuaeth ac yn herio'r naill a'r llall i gynnig gwasanaeth gwell i gwsmeriaid. Rwy'n benderfynol o ddatrys hynny."

Mae'n glir felly y byddai sefydliad a chanddo gyfalaf da o oddeutu £50 miliwn, heb faich asedau o'r gorffennol, mewn sefyllfa dda i ennill trwydded fancio.

Ar wahân i Gyfalaf, beth arall fyddai ei angen?

Yn sicr, byddai llawer yn dibynnu ar gynllun busnes 5 mlynedd wedi'i ymchwilio a'i ddogfennu'n dda sy'n dangos bod digon o gyfalaf i wrthsefyll amgylchiadau economaidd anodd ac yn darparu buddsoddiad cychwynnol priodol. Byddai angen i'r banc newydd arddangos polisiau benthyca ceidwadol, system TG gadarn, tîm profiadol o gyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol wedi'u rheoleiddio gan yr FCA, a threfniadau hylifedd cadarn. Byddai'r angen i ddod â'r holl elfennau hyn ynghyd yn gwneud i broses chwe mis ymddangos yn afrealistig, ond yn sicr byddai 12 mis yn ymddangos yn bosib o sefydlu'r holl fecanweithiau cymorth priodol.

Amcan busnes penodol Banc Cymunedol Cymru fyddai gwasanaethu'r microfusnesau, y BBaChau ac unigolion ar incwm is a chanolig yn y wlad; gan ddarparu gwasanaeth bancio i bawb ar sail ddielw, a chyda ffocws datblygu cymunedau yn genhadaeth glir ganddo. Fodd bynnag, ni ddylai hyn olygu peidio darparu gwasanaethau bancio i ystod ehangach o gwsmeriaid, yn enwedig pe bai Cyllid Cymru'n gysylltiedig â Banc Cymunedol Cymru mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Efallai y byddai hyn yn cymhlethu pethau'n ormodol ar hyn o bryd.

## **8. CASGLIAD**

Safbwynt yr awdur yw bod banciau adwerthu mawr y DU wedi bod yn darparu gwasanaeth sâl i economi Cymru ers blynyddoedd. Bu'r ddarpariaeth o gredyd a chyllid i ariannu dyledion yn ystod y pum mlynedd

diwethaf yn warthus. Nid pwyntio bys at staff banciau lleol Cymru mo hyn – maent hwy'n cael eu cyflogi o fewn modelau busnes camweithredol ac wedi'u cyfyngu gan benderfyniadau gwael uwch weithredwyr ym Mhrif Swyddfeydd Llundain a Chaeredin.

Nid oes unrhyw dystiolaeth amlwg i awgrymu y bydd y sefyllfa hon yn newid. Yn syml, nid yw demograffeg busnes Cymru'n cydweddu â strategaethau bancio adwerthu cyfredol sefydliadau mawr iawn â'u sylfeini costau enfawr. O edrych yn ôl, mae'n amheus a oedd busnesau Cymru'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn ystod y cyfnod lle'r oedd arian ar gael yn rhwydd hyd yn oed. Nid yw darparu benthyciadau rhwydd heb roi ystyriaeth ddigonol i fusnesau ac yna tynnu'r cyfleusterau'n ôl cyn gynted ag y bo unrhyw anhawster yn codi yn cynrychioli arfer bancio da. Mae'r modelau busnes a fabwysiadwyd gan yr holl fanciau adwerthu mawr wedi gwneud cam â'r gymuned fusnes, ac yn parhau i wneud hynny gan achosi canlyniadau economaidd difrifol.

Rydym wedi dangos bod modelau eraill yn bosibl ac yn gwasanaethu eu cymunedau lleol yn well, ac felly'n cynhyrchu economi fwy, ac economi gadarnach. Nid dyfeisio olwyn newydd fyddai Banc Cymunedol Cymru. Dylid canolbwyntio ar asesu a mabwysiadu arferion gorau banciau cymunedol, Sparkasse, Banciau Cantonaidd, Undebau Credyd ac eraill a chanddynt genhadaeth "llynell waelod ddwbl". Yn sicr, mae gan Lywodraeth Cymru'r adnoddau ariannol i sefydlu Banc Cymunedol i Gymru, a chyda digon o benderfynolrwydd i ymdrin â'r drwgdybwyr arferol, gallai dorri cwys newydd mewn system fancio sydd wedi gwneud cam â'n pobl, ein busnesau ac, yn y pen draw, â'n gwlad.

## YNGLŶN Â'R AWDUR



Dechreuodd Colyn Gardner ei yrfa fancio fel Hyfforddai Graddedig ym 1970 yng nghanen Natwest Caerdydd, ar 117 Heol Y Santes Fair. Fe'i trosglwyddwyd yn gyflym i gangen flaenllaw'r banc ar Corn Street ym Mryste, cyn symud eto i Bencadlys y banc yn Ninas Llundain. Yn ystod y cyfnod hwn, cwblhaodd Colyn ei arholiadau bancio proffesiynol, a chymhwyso fel Cydymaith i Sefydliad y Bancwyr (dyfarnwyd Cymrodoriaeth iddo'n ddiweddarach). Ar ddychwelyd i'r Brifysgol, astudiodd Colyn M.Sc mewn Economeg Ariannol a doethuriaeth mewn Cyllid Corfforaethol cyn dychwelyd i'w yrfa fancio, y tro hwn gyda'r US Investment Bank, Bankers Trust Company, lle cododd drwy'r rhengoedd i swydd Is-lywydd gyda chyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau bancio buddsoddi arloesol i rai o gorfforaethau mwyaf y byd.

Yng nghanol y 1980au, sefydlodd Colyn ei gwmni ymgynghori ei hun ym maes bancio, wedi'i leoli yn Ninas Llundain, ac yn ystod y saith mlynedd nesaf cyhoeddwyd cyfrannau'r busnes ar farchnad stoc y DU, a daeth y busnes yn gwmni cyhoeddus wedi'i restru'n llawn ar y brif farchnad, gyda swyddfeydd yn Llundain, Efrog Newydd, Amsterdam, Sydney, Hong Kong, Singapôr a Chaerdydd. Ar ryw bryd neu'i gilydd, roedd yr

ymgyngoriaeth wedi gweithio i fwy na 90 o fanciau mwyaf y byd. Caffaelwyd y busnes gan Euromoney Group plc. ym 1992, a hyd heddiw dyma'r cwmni hyfforddi bancio mwyaf drwy'r byd.

Yn dilyn hynny, sefydlodd Colyn ddau fusnes arall a chyhoeddi eu cyfrannau ar y farchnad stoc, ac mae'r ddau gwmni'n rhai a restrir ac a ddyfynnir heddiw, sef Savile Group plc. ac ILX plc. Yn 2005, dychwelodd Colyn i'r byd academaidd fel Prif Weithredwr Canolfan Reoli yn Ysgol Fusnes Bangor, Prifysgol Bangor.

Yn ystod ei yrfa, mae Colyn wedi gweithredu fel banciwr adwerthu a hefyd fel banciwr buddsoddi; mae wedi bod yn gwsmer corfforaethol i fanciau drwy gadeirio busnesau cwmni cyhoeddus, ac yn academydd ac yn athro ym maes bancio a chyllid. Ar hyn o bryd, ef yw Dirprwy Is-ganghellor a Deon Ysgol Fusnes Prifysgol Sunway ym Malaysia, lle mae'n adeiladu cyfadran astudiaethau bancio arbenigol ar lefel israddedig ac ôl-raddedig.

Mae Colyn wedi gweithio fel cynghorydd i Fanc y Byd, Awdurdod Ariannol Saudi Arabia (SAMA), yr IMF a banciau canolog ac asiantaethau llywodraeth eraill yn Nigeria, Yr Aifft, Y Swdan a hefyd i nifer o sefydliadau ariannol y Dwyrain Canol. Roedd Colyn hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol i Awdurdod Datblygu Cymru yn y 1980au hwyr/ar ddechrau'r 1990au. Mae'n Gymrawd i Brifysgol Cymru.